

Amgueddfa Stori Caerdydd

Ymweliadau a gweithdai Dysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2



DIDDOROL, DIFYR A RHYNGWEITHIOL

Amgueddfa Stori Caerdydd
Yr Hen Lyfrgell
Yr Aes
Caerdydd
CF10 1BH

**Cardiff
Story
Museum**

**Amgueddfa
Stori
Caerdydd**

029 2034 6214
storicaerdydd@caerdydd.gov.uk
www.storicaerdydd.com
[@thecardiffstory](http://www.facebook.com/cardiffstory)



Ni yw'r amgueddfa sy'n adrodd stori Caerdydd.

Rydyn ni'n amgueddfa hanes cymdeithasol sy'n golygu ein bod ni'n defnyddio straeon personol pobl i adrodd hanes Caerdydd.

BETH YDYN NI'N EI WNEUD?

Gall ymweld ag Amgueddfa Stori Caerdydd gynnig profiad dysgu diddorol, difyr a rhyngweithiol i ddysgwyr o unrhyw oedran.

Mae ein horiellau yn edrych ar y newidiadau cymdeithasol, diwylliannol, technolegol ac economaidd sydd wedi digwydd yn y ddinas drwy fywydau ei phobl.

Os ydych chi'n chwilio am weithdy dysgu ar unrhyw beth sy'n ymwneud â Chaerdydd, sut a pham y mae'r ddinas wedi newid a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar fywydau pobl... cysylltwch â ni nawr!

BETH SYDD YN EIN HORIELAU?

Mae oriel Caerdydd mewn Cyd-destun yn edrych ar sut y trawsnewidodd Caerdydd o fod yn dref farchnad fechan yn y 1300au i un o borthladdoedd mwya'r byd yn y 1900au, i'r brifddinas goshopolitan sydd yma heddiw.




Mae arddangosiadau rhyngweithiol yn rhoi'r cyfle i chi grwydro drwy straeon pobl y ddinas, eu cartrefi, eu bywydau gwaith, yr adeiladau a'r drafnidiaeth a ddefnyddiwyd ganddyn nhw, y dociau, y cymunedau cynharaf a ymgartrefodd yng Nghaerdydd, perthynas Caerdydd â'r cymoedd a Chaerdydd fel dinas fodern.

Mae oriel Lab y Ddinas yn cynnig profiad dysgu hyd yn oed yn fwy rhyngweithiol i blant ac oedolion. Mae 'Den Dewi' yn annog dysgwyr (0-5 oed) y cyfnod sylfaen i ddysgu drwy wisgo i fyny a chwarae rôl.

Mae'r Gorsafoedd Gweithredu yn annog dysgwyr (7-11 oed) cyfnod allweddol 2 i edrych ar siopa, mudo a'r Ail Ryfel Byd. Mae Astudiaethau Achos yn galluogi dysgwyr o bob oedran i ddysgu am ffyrdd o archwilio eu hanes a'u treftadaeth eu hunain.

GWEITHDAI DYSGU

Gellir addasu'r gweithdai canlynol yn ôl anghenion yr ysgol a gall rhai gael eu cynnal mewn ysgolion. Trafodwch gyda'r Swyddog Dysgu drwy ffonio 02920 346214 neu e-bostio storiacaerdydd@caerdydd.gov.uk



Y CYFNOD SYLFAEN

Dysgu â'r dwylo

Amser a argymhellir - 1.5 awr

Cost - £3 (+TAW*) y dysgwr

Dewch i fwynhau hyd yn oed mwy o gynnwys rhyngweithiol, wedi'i gyflwyno yn arbennig ar gyfer eich ymweliad chi! Bydd digonedd o bethau i'w cyffwrdd, i'w codi i fyny, i'w gwisgo, i'w gweld, i'w hadeiladu, i'w symud, i'w lliwio. Gall ein Swyddog Dysgu hefyd gynnig Amser Odli ac Amser Stori am £1 y disgybl yn ychwanegol.

CYFNOD ALLWEDDOL 1

Mae ein horiellau yn amgylchedd perffaith i alluogi dysgwyr Cyfnod Allweddol 1 i ddysgu drwy ddarganfod a chwarae yn annibynnol.

Gallwn addasu'r rhaglen Cyfnod Sylfaen neu weithdai Cyfnod Allweddol 2 i ateb eich gofynion os ydych o'r farn y byddai hynny'n fwy priodol ar gyfer eich disgyblion. Mynnwch air gyda'n Swyddog Dysgu drwy ffonio 02920 346214 i drafod yr opsiynau hyn.

Crwydro'r orielau (ymweliad annibynnol)

Amser a argymhellir – 1.5 awr

Cost - £1 (+TAW*) y dysgwr

Dewch i grwydro cynnwys ein horiellau rhyngweithiol ar ymweliad annibynnol a defnyddiwyd ein blychau darganfod i ychwanegu at y cyfleoedd dysgu. Mae blychau darganfod yn galluogi athrawon i sbarduno rhai o'r negeseuon pwysicaf yn ein harddangosfeydd. Byddant yn annog disgyblion i ystyried y themâu canlynol – ym mha ffordd y mae eitemau yn y cartref wedi newid dros amser, ym mha ffordd y mae'r dociau wedi newid, a pham fod y gwahanol gymunedau wedi dod i Gaerdydd.

Crwydro'r orielau (ymweliad a hwylusir)

Amser – 1 awr

Cost - £4 (+TAW*) y disgybl

Gall ein Swyddog Dysgu roi taith arbennig o amgylch yr orielau i ddisgyblion. Os ydych yn canolbwyntio ar thema benodol yn yr ysgol yna

gellir ei chynnwys yn y gweithdy. Holwch ein Swyddog Dysgu i gael rhagor o wybodaeth.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Mae pob un o'n gweithdai yn 1 awr o hyd ac yn £4 y disgybl, a gellir eu cyflwyno i uchafswm o 30 o ddisgyblion. Rydyn ni'n cynnig y gweithdai canlynol

1. Bywyd yng Nghaerdydd yn Oes Fictoria

Bydd dysgwyr yn darganfod sut le yr oedd Caerdydd yn Oes Fictoria drwy edrych ar straeon teulu dosbarth gweithiol, dosbarth canol a'r bonheddwyr. Sesiwn rhyngweithiol gyda chyfle i wisgo fyny, cyffwrdd ag eitemau a phropiau a gwrandao ar straeon personol. Bydd y sesiwn hon yn annog disgyblion i ddychmygu sut fywyd oedd gan blant mewn teuluoedd gwahanol yng Nghaerdydd yn y 19eg ganrif ac yn eu hannog i gymharu hyn â'u bywydau nhw nawr.

2. Yr Ail Ryfel Byd yng Nghaerdydd

Sesiwn rhyngweithiol gyda chyfle i wisgo fyny, trin gwrthrychau a phropiau a gwrandao ar straeon personol. Bydd disgyblion yn dysgu am fywyd yng Nghaerdydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd, pam y cafodd cynifer o blant eu symud allan o'r ddinas a sut beth oedd y profiad hwnnw.

3. Stori Mudo: Cymunedau amrywiol Caerdydd

Dysgwch pam fod pobl o bedwar ban byd wedi heidio i Gaerdydd. Bydd straeon personol yn cael eu defnyddio i edrych ar y themâu mudo i weithio, cyfleoedd newydd, gwrthdaro, rhyfel, teulu a ffrindiau.

4. Y Rhyfel byd cyntaf yng Nghaerdydd

Dysgwch sut oedd hi i fod yn blentyn yn ystod y Rhyfel Mawr yng Nghaerdydd. Ymysg y themâu mae aelodau o'r teulu yn gadael i fynd i ryfel, y ffosydd, plant yn cyfrannu at yr ymdrech ryfel, gwrthwynebwyr cydwybodol a menywod yn gweithio.

5. Stori Caerdydd

Ar daith arbennig o'n horiellau, bydd dysgwyr yn darganfod sut y trawsnewidiodd Caerdydd o fod yn dref farchnad fechan yn y 1300au i un o borthladdoedd mwya'r byd yn y 1900au, i'r brifddinas gosmopolitan sydd yma heddiw. Os ydych chi'n gweithio ar thema benodol yn yr ysgol, gellir ei hymgorffori i mewn i'r gweithdy. Siaradwch â'n Swyddog Dysgu i gael rhagor o wybodaeth.

6. Straeon Rygbi

Gêm fawr â hanes cyfoethog sy'n rhan annatod o'n diwylliant ni. Dewch i edrych ar hanes rygbi yng Nghymru, hanes Cwpan y Byd a'r gwledydd sy'n cymryd rhan.

7. Casglu straeon pobl - gweithdy hanes llafar

Amser - 4 awr

Cost - £16 (+TAW*) y disgybl

Bydd y gweithdy'n ystyried pam ein bod ni'n casglu straeon personol pobl yn yr amgueddfa a sut mae gwneud hynny. Cyfle campus i ddysgwyr ddatblygu sgiliau gwranddo, siarad a chwestiynu wrth iddynt gyfnewid â phobl. Os ydych chi'n ystyried gwneud project arbennig yn yr ysgol lle byddwch chi'n casglu straeon pobl, byddai ein gweithdy Hanes Llafar yn gyflwyniad gwych.



8. Creu arddangosfa

Amser - 4 awr

Cost - £16 (+TAW*) y disgybl

Mae hwn yn weithdy rhyngweithiol lle bydd cyfranogwyr yn dysgu sut y gwnaethon ni greu Amgueddfa Stori Caerdydd a sut y gallan nhw greu eu harddangosfa eu hunain. Bydd cyfranogwyr yn dysgu sut i adrodd straeon yn eu harddangosfa, yn edrych ar y gwahanol adnoddau y gallan nhw eu defnyddio ac yn ystyried sut y gallan nhw wneud eu harddangosfa'n ddiddorol i lawer o wahanol bobl.

YMWELIAD A ARWEINIR GENNYCH CHI

Amser argymhellir: 1.5 o - 2 awr

Cost - £1 (+TAW*) y disgybl

Os byddai'n well gennych gynnal eich ymweliad hunan-dywys eich hun, gallwn roi blychau Darganfod yn yr oriel Caerdydd mewn Cyd-destun sy'n cynnwys gweithgareddau sy'n ategu cynnwys ein harddangosfeydd.

Gallwch ddefnyddio ein Hystafell Ddysgu i gael cinio am gost ychwanegol o £10.

Trefnwch eich ymweliad drwy gysylltu â'n Swyddog Dysgu ar 02920 346214 neu drwy anfon e-bost i storiacaerdydd@caerdydd.gov.uk

**Ni chodir TAW ar ysgolion Cyngor Caerdydd*

CAMAU NESAF

Os oes gennych ddiddordeb yn unrhyw un o'n gweithdai cysylltwch â'n Swyddog Dysgu ar 02920 346214 neu anfonwch e-bost i storiacaerdydd@caerdydd.gov.uk